# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6050

# 249

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-4 a 6-9. Trosglwyddwyd cwestiwn 5 i'w ateb yn ysgrifenedig. Ni ofynnwyd cwestiynau 10 a 12. Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 14.08

Gofynnwyd y cwestiwn 9 cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni chafwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 14.52

Gwnaeth Helen Mary Jones ddatganiad am gefnogi digwyddiad a gaiff ei gynnal yn Ngwersyll yr Urdd ym Mae Caerdydd ar 18 a 19 Rhagfyr.

Gwnaeth Suzy Davies ddatganiad yn nodi 40 mlynedd ers mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW).

Gwnaeth Caroline Jones ddatganiad am Sefydliad y Merched Cwm Brombil.

## 5 Cynnig i ddirymu Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019 - TYNNWYD YN ÔL

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Lefelau Staff Nyrsio

Dechreuodd yr eitem am 14.57

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7215** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Cynnydd a Her: Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

2. Yn nodi bod mwy o nyrsys yn gadael y GIG nag sy'n ymuno.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y bydd GIG Cymru yn cynyddu'r cyfleoedd i weithio'n hyblyg fel rhan o strategaeth genedlaethol ar gyfer cadw nyrsys.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 14 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau - Mynediad at Fancio

Dechreuodd yr eitem am 15.34

**NDM7219** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad i: Mynediad at Fancio a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Addysg Ysgol

Dechreuodd yr eitem am 16.35

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7218** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi canlyniadau PISA 2018 y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

2. Yn gresynu:

a) na fu unrhyw welliant ystadegol sylweddol yn sgoriau PISA Cymru mewn darllen a mathemateg ers 2006;

b) bod sgoriau Gwyddoniaeth Cymru yn sylweddol waeth nag yn 2006;

c) bod Cymru wedi'i gosod ar waelod gwledydd y DU mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth;

d) mai Cymru yw'r unig genedl yn y DU sydd â sgôr is na chyfartaledd yr OECD ym mhob un o fesurau PISA.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod ei methiant i wella addysg yng Nghymru;

b) ymddiheuro i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion am eu siomi;

c) gwarantu bod adnoddau ychwanegol yn deillio o wariant ychwanegol ar ysgolion gan Lywodraeth y DU yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 44 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi mai Cymru yw'r unig genedl yn y DU i wella ym mhob maes.

Yn croesawu:

a) sgoriau gorau Cymru erioed mewn darllen a mathemateg, a gwelliant mewn gwyddoniaeth;

b) gostyngiad yn y bwlch rhwng ein dysgwyr mwyaf difreintiedig a'u cyfoedion;

c) gwelliant ym mherfformiad myfyrwyr uchel eu perfformiad.

Yn credu bod y gwelliant yn sgoriau PISA yn brawf o waith caled athrawon a disgyblion ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 17 | 44 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7218 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi canlyniadau PISA 2018 y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

2. Yn nodi mai Cymru yw'r unig genedl yn y DU i wella ym mhob maes.

3. Yn croesawu:

a) sgoriau gorau Cymru erioed mewn darllen a mathemateg, a gwelliant mewn gwyddoniaeth;

b) gostyngiad yn y bwlch rhwng ein dysgwyr mwyaf difreintiedig a'u cyfoedion;

c) gwelliant ym mherfformiad myfyrwyr uchel eu perfformiad.

4. Yn credu bod y gwelliant yn sgoriau PISA yn brawf o waith caled athrawon a disgyblion ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 17 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.32

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.35

**NDM7220** Vikki Howells (Cwm Cynon)

Mynd i'r afael â heriau gofal yr unfed ganrif ar hugain.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.03

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2020**